

ATGYFODI GŴR Y SIACED FRAITH



Ai dyma bryd a gwedd Ioseff ei hun?

TYBED a yw hi'n bosibl i ni gyfarfod ag un o gymeriadau'r Hen Destament? Mewn cyfrol ddiweddar (gweler isod) fe osodir dadl gref fod hynny'n bosibl, gan haeru ei bod yn rhesymegol deg i gredu fod corff Ioseff y Beibl – y gŵr â'r siaced fraith wedi ei ddiogelu a bellach wedi ei ddadorchuddio.

Cyfeirir at rybudd Ioseff i'w frodyr y deuai newyn mawr ac atynt yn troi ato ef i grefu am yd i'w cadw rhag marwolaeth pan wireddwyd y rhybudd.

Nodir hefyd fod hanes Ioseff yn dangos ei fod yn gyfarwydd â bywyd ac arferion yr Eifftiaid – hanes a drosglwyddwyd ar lafar am y maith flynyddoedd cyn eu cofnodi. Hefyd fe'i gelwir yn "dad y Pharaoh" – teitl a ailadroddir ugain o weithiau ar feddfeini Yuya yn Nyffryn y Brenhinoedd yn yr Aifft.

Yr oedd Yuya yn ganghellor i ddau Pharaoh a ddilynodd ei gilydd – Tuthmosis IV ac Amenhotep III a deyrnasai 3,400 o flynyddoedd yn ôl, yr union gyfnod yn ôl archaeolegwyr pan oedd yr Iddewon yn gaeth yn yr Aifft.

Yn ôl cofnodion roedd Yuya yn ŵr arbennig iawn ac yn estron ddyd a gododd i brif swyddi'r Aifft. A phan agorwyd bedd yn Nyffryn y Brenhinoedd yn 1905 fe ddadorchuddiwyd corff Yuya – wedi ei droi'n fwmi – mewn cyflwr eithriadol o dda. Ac yn ôl y Beibl, yr oedd corff Ioseff hefyd wedi ei gadw felly.

Yn ddiweddar y gwnaed archwiliad manwl ar y bedd a'r mwmi yma, a chasgliad Ahmed Osman, arbenigwr ar hanes yr Aifft ac ar ei harysgrifau, yn ogystal â bod yn awdurdod ar yr iaith Hebraeg, y mae pob lle i gredu mai'r un person oedd Yuya a Ioseff y Beibl.

Os felly, astudiwch y darlun yn ofalus – rhag ofn eich bod yn cael cip ar wedd gŵr a allasai fod yn dad, onid yn sefydlydd i dair crefydd mawr y byd – Iddewiaeth, Cristnogaeth ac Islam.

Stranger in the Valley of the Kings. Gan Ahmed Osman. Souvenir Press. £15.95.

RHOWCH y bai ar y Golygydd; fo ofynnodd i mi ddeud gair am iaith Ifas, sef John Ifas, Congo Bach, Drefain, RSO. Holi y mae o o b'le daeth ei betha fo. Iawn, gan mai Y Casglwr, ydi enw'r magazin, a chan mai petha wedi eu dwyn ydi petha Ifas, debyg bod nhw'n ffitio.

Trwy ddynewared ambell i gymeriad go liwgar yn Eifionydd y mae o wedi dysgu siarad, yn union fel y mae plentyn bach yn dynwared ei fam. Mae o'i hun yn deud ar ryw gyfri – "Simpl, onid hwnna hwnna hwnna ydi ystyr mamiaith? Y? Nytif tyng yn Saesneg? M? Mae gan yr hen gyfaill Syr Mortimer Talbot bennod cyn felysad â wôl nyt ar y pwnc yn ei lyfr Love and Live Thy Langwij. Darllenwch o fory nesa cyn i'r hen genedl fach wirion yma fynd yn ddi-eiria, yn anlythrennog, hwnna s'gin i".

Yn ogystal â dynwared y mae Ifas yn dyfeisio hefyd. Mae o'n gwneud hyn reit amal wrth drafod enwau llefydd e.e. Rhos Tre Hwfar, Merthyr Trychfil, Niwcal on Tyim. Newid neu ychwanegu llythyren neu ddwy mae o yn y tri yna, ond daw galw am fwy o ddyfeisio rwan ac yn y man.

Dyna i chi Chwarael Gelli Wallgo lle treuliodd Jo ambell awr segur tra bod Ifas a Harri Bach wrthi'n brysur yn llwytho. Clawdd Offa Dyc wedyn a'r Salsbri Plên. Gwaith Tywod ger Bryncir ydi'r Salsbri Plên am mai cwmni o'r enw Salsbri oedd y perchennog.

Pwrpas galw y rhes tai yn

WILLIAM SAMUEL JONES yn egluro DYWEDIADAU CONGO BACH

Sodom Rôd ydi ceisio cyfleu mai pobol go ddrwg sy'n byw yno. Ar y llaw arall mae Ifas yn cael Y Wyping Wylu yn enw addas iawn ar dŷ galar.

TRA'N bod ni'n disgystio enwa, rhaid deud fod gan yr hen ddyd ei enw ar bobol hefyd. Mr Criosot mae o'n galw'i gowntant. Cristo ydi enw iawn y dyn ond mae'n well gan Ifas y Criosot am fod biliau y cowntant yn brifo ac yn llosgi. Ac am wn i nad ydi Syrjiant Plymp yn enw reit barchus ar y Glas di symud hwnnw. Er, mae Difyr yn well enw ar y surbwch plisman oedd mor barod i rannu'r perfforeded.

Dyfeisio'r enw Jonesco ddaru o yn y sgwrs ar Tai Byw, a methu'n echrydus wrth wneud am na wyddai fawr neb symol call pwy oedd Jonesco na'r Tenant newydd. Fo biau'r Tudno Trwyngoch, mae hwn yn siwtio dyn y Pwnsh a Jiwidi'n eitha.

Enw wedi ei ddwyn ydi Sdiring Moss. Dyn yn dwad i'r garej yn Llanystumdwy ac yn canmol Sdiring Moss fel dreifar, a mi clywodd Ifas o, wrth reswm.

Eiddo lladrad ydi dywediadau gora'r hen ddyd. Phia fo mo'r England Revenue, ei ddwyn o ddaru o oddi ar ffarmwr o Rhos-lan. Cradur, – cwyno

roedd o bod yr Inland Refaniw wedi anfon bil am drichant iddo fo. Na, doedd y ffarmwr ddim yn trio bod yn smart yn ei ofid, roedd o ddifri, debyg iawn.

Yr un dyn yn union arferai ofyn am sufyl wotyr i'w roi ym matri'r car.

Roedd hwn yn perthyn reit agos i'r sawl ddarllenodd y poster Sacred Concert hwnnw a'i alw yn sgêrd cornet. Ydyn mae'r rhain ar gael a diolch amdany'n nhw.

PETHAU'R glust yn hytrach na chynnyrch meddwl ydi bron grynswth'pethau Ifas, siwr gen i. Dyma nhw, "dydw i'n deud dim, deud ydw i." Cydweithiwr i mi ar y lori laeth fyddai'n siarad fel'na. Cofio dadl boeth rhyngddo fo a finna ganol Awst tra'n gwagio tri chan deuddag galwyn i Meior Platt yn Aber, Bangor.

Fel pob dadl arall ddechrau'r pedwar degau, dadl ar heddychiaeth oedd hon. Cyn dringo'n ôl i'r ciab dacw'r pardnar yn rhoi llaw ar fysgydd i, a medda fo "dydw i'n deud dim, deud ydw i."

Bosib bod y pwnc yn gwâdd cyfaddawd, wn i ddim. Mi wn mai cymydog i mi glywis i'n dyfynnu "Sgersli bilff" ar ôl

perthynas iddo fo yn y Garn (Dolbenmaen).

"Mi stopis reit ar ganol y 'Presbyterian crossing,' dreifar lori arall bia hwnna. Tad y sawl ddeudodd sgêrd cornet glywyd yn deud "musyri tŵr" am daith ddirgel. Mae rhyw ddeud smala fel hyn yn rhedeg mewn teulu. Etifeddeg, hwnna ydio.

RHAG mynd yn rhy hafin ar y gofod wna i ddim ond prin nodi ffefrynnau Ifas. "Diodydd poethion", y diweddar Einion Edwards glywis i'n deud y stori am y dyn defaid yn galw yn Nhyddyn Ronnen, ac yn ymosod yn ddirugaredd ar yr hen ddiodydd poethion (wisgi) gan obeithio medru cyfiawnhau yr ogle cwrw oedd ar ei wynt.

Un o'r Garn glywis i'n deud "sitiweshion sefyllfa" a "gwahaniaeth diffryns". Pori'r comin a'r cloddiau wnaeth Ifas am y lleill – Pitar êl, porticot, cyt ddy comic, embaras, ffansi ffrils a'r manion yna; pori pob man run fath â merlyn Cae Haidd gynt.

Ydw, rydw i'n gwrido wrth sylweddoli cymaint o hen Saesneg gwirion sydd ar gael ym mhetha Ifas. Anodd ydi tynnu cast o bensiwniar. Rhai fel'na ydan ni yr hen bobol.

Mae'r plant yn dwrddio mod i'n mynnu deud Llanybi Sdesion, ond dacio Llanybi Sdesion glywis i rioed. Na, waeth be ddyfyd neb, mi ddalia i i ddeud Llanybi Sdesion a Llanybi Pentra tra bydda i bellach, a thra bydd yna Llanybi.